# HCC Market Bulletin

Mehefin 2021

**Mae ffigurau a ryddhawyd yn ddiweddar gan Kantar yn dangos bod siopwyr Prydain wedi gwario £4.1 biliwn ar gig eidion, cig oen a phorc yn ystod y cyfnod 12 mis diwethaf, gydag amlder siopwyr yn prynu cig coch yn annog cynnydd mewn gwariant. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau hyn yn fanylach.**

*Yn ystod y 52 wythnos a ddaeth i ben ar 16 Mai 2021, cyfanswm y gwariant ar gig eidion, cig oen a phorc yn siopau Prydain Fawr oedd £4.1 biliwn yn ôl y data a ryddhawyd yn ddiweddar gan Kantar. Mae hwn yn gynnydd trawiadol o 12.6% o'i gymharu â'r cyfnod cyfatebol flwyddyn ynghynt. O ran faint o gig coch a werthwyd; prynodd siopwyr Prydain gyfanswm o 565,100 tunnell, sy'n gynnydd o 9.4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod galw mawr am gig coch yn ystod pandemig Covid-19.*

## CIG EIDION

Yn ystod y cyfnod o 52 wythnos, cyfanswm y gwariant ar gig eidion ffres/wedi'i rewi oedd £2.5biliwn – i fyny 10.3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y cynnydd hwn mewn gwariant yn rhannol oherwydd cynnydd o 2.7% ym mhris cyfartalog cig eidion (i £7.88/kg), ynghyd â chynnydd sylweddol yn amlder prynu cig eidion yn ystod y cyfnod. Prynodd siopwyr Prydain gig eidion yn amlach, a chynyddu maint eu basged hefyd, a arweiniodd at gynnydd o 7.5% yng nghyfanswm y cig eidion a brynwyd yn ystod y cyfnod. Perfformiodd darnau o cig eidion i'w rhostio yn arbennig o dda yn ystod y flwyddyn, gyda gwariant o 20% ar y flwyddyn flaenorol i gyfrif am 17.2% o gyfanswm y gwariant ar gig eidion. Roedd gwerthiant briwgig yn arbennig o uchel yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2020 wrth i siopwyr brynu nwyddau mewn panig yn ystod y cyfnod clo cychwynnol. Yn ystod y misoedd a ddilynodd, cynyddodd gweithgarwch hyrwyddo werthiannau darnau eraill o gig eidion a arweiniodd at leihau gwerthiant briwgig, ac yn gyffredinol mae wedi arwain at ostyngiad o 2.7% yn y gwariant ar briwgig yn ystod y cyfnod diweddaraf o 52 wythnos.

**Gwariant ar gig eidion yn siopau Prydain Fawr**

**+10.3%**

52 wythnos yn gorffen ar 16.05.2021

## CIG OEN

Cynyddodd gwariant ar gig oen ffres/wedi'i rewi yn ystod y cyfnod o 19.0% ar y flwyddyn i £694.4 miliwn, tra bod y cyfaint 14.3% yn uwch ar y flwyddyn. Yn yr un modd â chig eidion, roedd y cynnydd o 4.1% yn y pris cyfartalog i £10.14/kg yn un o'r ffactorau y tu ôl i'r cynnydd mewn gwariant, ynghyd â chynnydd o 10.1% yn amlder prynu cig oen. Mae ffigurau Kantar yn datgelu, er bod maint y fasged yn parhau'n gymharol debyg o flwyddyn i flwyddyn, bod siopwyr wedi prynu cig oen yn llawer mwy rheolaidd yn ystod y cyfnod sy'n awgrymu bod galw am gig oen yn ystod y cyfyngiadau symud wrth i bobl arbrofi gyda ryseitiau newydd yn eu cartref. Er gwaethaf cynnydd yn y pris cyfartalog, roedd cynnydd yn nifer y prynwyr a brynodd gig oen ac arweiniodd hyn at 54% o gyfanswm poblogaeth Prydain Fawr yn ymgysylltu â'r categori – sy'n newyddion cadarnhaol i'r sector. Roedd golwythion cig oen yn arbennig o boblogaidd yn ystod y 12 mis a gwelwyd cynnydd o 16.1% mewn gwariant oherwydd cynnydd o bron i 5% yn nifer y prynwyr.

**Gwariant ar gig oen yn siopau Prydain Fawr**

**+19.0%**

52 wythnos yn gorffen ar 16.05.2021

## PORC

Cyfanswm y gwariant ar borc ffres/wedi'i rewi yn siopau Prydain Fawr oedd £871.8 miliwn – cynnydd o 14.5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O ran cyfaint, gwelodd porc gynnydd o 11.1% ar y flwyddyn, tra bod pris cyfartalog porc yn £4.95/kg (sef 3.1% yn uwch na'r 12 mis blaenorol). Arhosodd cyfanswm nifer y prynwyr a oedd yn ymgysylltu â'r cynnyrch yn gymharol sefydlog ar 71% o gyfanswm poblogaeth Prydain Fawr, ac amlder prynu porc oedd y prif sbardun y tu ôl i'r cynnydd mewn gwariant. Prynodd siopwyr borc yn fwy rheolaidd yn ystod y cyfnod wrth i amlder gynyddu o 8.7%. Perfformiodd darnau o borc i'w rhostio yn dda, gyda gwariant o 19.4% ar y flwyddyn i gyfrif am dros 31% o gyfanswm y gwariant.


**Gwariant ar borc yn siopau Prydain Fawr**


**+14.5%**

52 wythnos yn gorffen ar 16.05.2021

*Er bod prynu mewn panig a chau'r diwydiant bwyd bron yn llwyr wedi gwaethygu anghydbwysedd carcasau i ddechrau ac wedi ychwanegu at ansefydlogrwydd prisiau o fewn y farchnad cig coch, mae gwerthiant cig coch mewn siopau wedi bod yn gryf. Wrth i gyfyngiadau Covid leddfu, mae'n anodd rhagweld a fydd patrymau galw defnyddwyr yn dychwelyd i'w cyflwr cyn Covid, neu os bydd mwy o brynu cig coch mewn siopau yma i aros. Bydd y newid mewn cyfleoedd achlysuron bwyd o gartref i fwy o achlysuron y tu allan i'r cartref yn cael effaith ar y sector manwerthu, a bydd hefyd yn achosi i gyfran y farchnad o fanwerthwyr a gwasanaethau bwyd esblygu. Er bod y pandemig yn parhau i achosi heriau i'r diwydiant cig coch, mae mwy o diddordeb gan cwsmeriaid ynghylch tarddiad, cynaliadwyedd, lles anifeiliaid ac iechyd. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd allweddol i Gig Eidion Cymru, Cig Oen Cymru a Phorc o Gymru.*

**Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr**





**Cynnyrch Cig Eidion yn y DU**


## GWARTHEG

Roedd pris cyfartalog gwartheg dethol y farchnad yng Nghymru a Lloegr yn 220.7c/kg am yr wythnos a ddaeth i ben ar 19 Mehefin – i lawr 1.3c ar yr wythnos. Mae'r pris presennol yn gryf o'i gymharu â chyfartaleddau hanesyddol, ac mae 30c yn uwch na lefelau blwyddyn gynharach, a 33c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 187.6c/kg). Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 19 Mehefin, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 388.4c/kg (+3.2c ar yr wythnos) sydd 34c yn uwch na lefelau blwyddyn ynghynt. Y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod oedd 397.7c/kg (+3.8c ar yr wythnos), teirw ifanc oedd 384.6c/kg (+6.9c), a gwartheg difa oedd 283.7c/kg (+2.3c).

Lladdwyd 220,400 o wartheg yn lladd-dai'r DU yn ystod mis Mai - sef lefel debyg i fis Mai 2020 (cynnydd o 0.2%), ond 6.8% yn is nag yn 2019. Roedd trwybwn gwartheg dethol ar gyfer y mis wedi gostwng 2.2% ar y flwyddyn i 165,400 pen, gyda bustych a heffrod yn sbarduno'r dirywiad hwn. Roedd trwybwn teirw ifanc wedi cynyddu 9.0%, ond roedd eu pwysau carcas cyfartalog dros 3kg yn ysgafnach ar y flwyddyn. Roedd nifer y gwartheg llawn-dwf wedi cynyddu 9.5% ar lefelau blwyddyn ynghynt i gyfanswm o 50,400. O ganlyniad, mae cyfanswm y trwybwn ar gyfer y flwyddyn hyd yma wedi gostwng 3.5% o gymharu â'r flwyddyn. Roedd cynhyrchiant cig eidion ar gyfer mis Mai wedi cynyddu 1.2% o'i gymharu â'r flwyddyn oherwydd pwysau carcasau cyfartalog trymach.

**Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru**





**Cynnyrch Cig Defaid yn y DU**


## DEFAID

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) pwysau byw ŵyn dethol ar gyfartaledd mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru wedi bod ar i lawr - ond mae'n cofnodi lefelau llawer uwch na'r flwyddyn yn gynharach. Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 19 Mehefin, gostyngodd y cyfartaledd 15.1c ar yr wythnos i gyfartaledd o 289.0c/kg. Er gwaethaf y gostyngiad, mae hyn 75.1c yn uwch na lefelau blwyddyn yn gynharach, a 79.2c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 209.8c/kg). Roedd prisiau mamogiaid difa ym marchnadoedd da byw yng Nghymru ar gyfartaledd yn £81.60 y pen – gostyngiad o £7.40 ar yr wythnos flaenorol, ond £20.80 yn uwch na'r llynedd. Roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain Fawr yn 634.5c/kg am yr wythnos a ddaeth i ben ar 19 Mehefin (+165.9c ar y flwyddyn).

Cyfanswm trwybwn defaid yn lladd-dai'r DU oedd 911,800 pen ar gyfer mis Mai – i lawr 7.1% o'i gymharu â'r flwyddyn. O fewn hyn, roedd y trwybwn ŵyn dethol wedi gostwng 6.0% i 833,000 pen, tra bod trwybwn mamogiaid a hyrddod difa wedi gostwng 17.0% i 78,800 pen. O edrych ar y flwyddyn hyd yn hyn; mae trwybwn ŵyn wedi gostwng 8.3% i 4.2 miliwn pen, tra bod nifer y defaid difa wedi gostwng bron 24% o gymharu â'r flwyddyn. Roedd pwysau cyfartalog carcasau ŵyn yn ystod mis Mai 0.2kg yn ysgafnach, a oedd yn ffactor arall y tu ôl i'r gostyngiad o 7% yng nghyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd ar gyfer y mis. Ar gyfer y flwyddyn hyd yma, mae cyfanswm y cynhyrchiant wedi gostwng 9% o'i gymharu â'r flwyddyn.

**Pris cyfartalog yr holl foch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain**




**Cynnyrch Porc yn y DU**

## MOCH

Mae prisiau moch wedi parhau gyda'u momentwm cynyddol ers sawl mis, gyda'r Pris Holl Foch Prydain (APP) ar fanyleb yr UE diweddaraf ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 12 Mehefin yn cynyddu 1.1c ar yr wythnos i 159.6c/kg. Mae'r bwlch rhwng eleni a phrisiau uchel y llynedd wedi bod yn lleihau'n araf, gyda'r cyfartaledd presennol ond 7.9c yn is na lefelau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gefnogaeth gan alw cadarn mewn siopau, ynghyd â chyflenwad tynnach o foch glân, wedi arwain at y pris presennol dros 7c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 152.3c/kg). Er gwaethaf y cynnydd yn yr APP cyfartalog, mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu bod proffidioldeb yn cael ei lesteirio gan y costau porthiant cynyddol.

Cyfanswm trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU oedd 935,700 pen ar gyfer mis Mai – cynnydd o 15.2% ar y flwyddyn, ond yn debyg iawn i'r trwybwn a gofnodwyd yn ystod mis Mai 2019. Cafodd y cynnydd ar y flwyddyn ei sbarduno'n bennaf gan 118,600 o foch glân ychwanegol yn dod ymlaen, tra bod pwysau cyfartalog eu carcasau hefyd wedi cynyddu 1.1kg ar y flwyddyn, i 87.1kg. Cynyddodd trwybwn hwch a baedd bron i 35%. Arweiniodd y cyfuniad o drwybwn uwch a phwysau carcasau cyfartalog trymach at gynnydd o 17% mewn cynhyrchiant porc yn ystod mis Mai, gan ddod â chyfanswm y cynhyrchiant hyd yma eleni 7.6% yn uwch na lefelau blwyddyn gynharach.